Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 28 Mehefin 2022 am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Cadeirydd) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-gadeirydd) (o 11am) |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro |
| Andrea Winterton | Rheolwr Gwasanaethau Morol, Gweithrediadau, CNC |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Mydrian Harries | Pennaeth Atal ac Amddiffyn Corfforaethol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jo McCarthy | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Anna Malloy | Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid, Porthladd Aberdaugleddau |
| Tom Sawyer | Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau |
| David Evans | Prifathro Cynorthwyol, Coleg Sir Benfro |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro |
| Richard Brown | Prif Swyddog Gweithredol Cynorthwyol, Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Neil Prior | Cyngor Sir Penfro |
| Ruth Goymer | Rheolwr y Rhaglen Dysgu a Datblygu, Cyngor Sir Penfro |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Jemma Rees | Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |
| Yr Uwch-arolygydd Anthony Evans | Heddlu Dyfed Powys |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Cyflawni Lleol Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Anna Bird | Pennaeth Datblygu Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Alyson Phillips | Rheolwr Partneriaethau, yr Adran Gwaith a Phensiynau |

| | |
|---|---|
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Barry Walters | Pennaeth Coleg Sir Benfro |
| Ant Rogers | Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Cyngor Sir Penfro |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am.

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd TJ y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhestrwyd ymddiheuriadau o'r rhai uchod. Nodwyd gan TJ hefyd y newyddion ofnadwy o drist am farwolaeth Ros Jervis ac anfonwyd cydymdeimladau o'r Bwrdd at Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a theulu Ros. Nodwyd ganddo y cyfraniad cadarnhaol a wnaeth Ros i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod ei chyfnod fel aelod.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / cofnod camau gweithredu**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022, yn gofnod cywir.

<u>Cofnod camau gweithredu</u>

Roedd y diweddariadau ar gamau a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:

Cam gweithredu 1 – Diweddariad ar yr agenda

Cam gweithredu 2 – Nid oedd LR yn bresennol i roi diweddariad manwl ond dywedodd NE fod Cyd-gynhyrchu Cymru wedi mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Ymgysylltu Sir Benfro ac wedi cymryd rhan mewn deialog ynghylch sut y gallant gefnogi a gwella gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cam gweithredu 3 – Cyflawn

Cam gweithredu 4 – Diweddariad ar yr agenda

Cam gweithredu 5 – Nid oedd AP yn bresennol i roi diweddariad ond dywedodd DE fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu’r cyllid bedair gwaith ar gyfer y ganolfan gyflogaeth sy'n darparu profiad gwaith i bobl 16-18 oed.

**3. Enwebu cadeirydd ac is-gadeirydd**

Gan mai'r cyfarfod cyntaf gorfodol ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol oedd hwn, roedd angen ethol cadeirydd ac is-gadeirydd. Roedd NE wedi cysylltu ag aelodau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn eu gwahodd i fynegi diddordeb yn y rolau. Bu dau enwebiad ar gyfer cadeirydd, sef TJ ac MB. Nid oedd MB yn bresennol a chysylltwyd â hi cyn y cyfarfod i weld a fyddai'n barod i dderbyn yr enwebiad ond ni chafwyd ymateb. Roedd dau enwebiad hefyd ar gyfer is-gadeirydd, sef SL a PK, a oedd yn hapus i gael ei (h)ystyried ond nad oedd yn bresennol. Dywedodd TJ ei fod wedi gobeithio am fwy o enwebiadau ar gyfer cadeirydd, yn enwedig gan aelod-sefydliadau statudol, gan ei fod wedi bod yn y swydd am y pum mlynedd diwethaf. Dywedodd JMc fod y llwyth gwaith presennol ar gyfer MB yn cynyddu ac felly y byddai'n ymgeisydd annhebygol ar gyfer cadeirydd ar hyn o bryd ac ychwanegodd AW y byddai'n well cael cadeirydd ac is-gadeirydd o ddau sefydliad gwahanol. Dywedodd SL y dylai'r cadeirydd

fod yn gwbl ymroddedig ac yn gallu cyflawni'r rôl gyda phresenoldeb ym mhob cyfarfod, ac mae'n rhagweld y bydd llwyth gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynyddu wrth i gamau gweithredu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ddechrau. Gofynnodd NE i CG am arweiniad gan Lywodraeth Cymru pe na fyddai'r rolau'n cael eu llenwi yn y cyfarfod, ac awgrymodd CG i TJ ac SL aros yn eu rolau yn y cyfamser tan y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Pwysleisiodd TJ pa mor gadarnhaol oedd y rôl fel cadeirydd ac anogodd yr aelodau i wirfoddoli. Dywedodd RB y byddai'n trafod gydag aelodau eraill Cyngor Sir Penfro yr hyn y gallai'r sefydliad ei gynnig a chefnogodd TJ fel cadeirydd dros dro. Awgrymodd JMC gylchredeg neges amgen yn gofyn pwy sydd â'r gallu a'r ymrwymiad ar gyfer y rôl yn hytrach na gofyn am enwebiadau. Cytunodd y bwrdd i ychwanegu'r eitem hon at yr agenda ar gyfer mis Gorffennaf.

**4. Adolygu'r cylch gorchwyl**

Roedd y cylch gorchwyl wedi'i adolygu ac nid oedd yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol, dim ond ychwanegiad i Ran 23, a gynhwyswyd o ganlyniad i adolygiad mewnol yng Nghyngor Sir Penfro. Gofynnodd SPJ a oedd unrhyw beth wedi'i gynnwys mewn perthynas â chyfarfodydd rhithwir/hybrid ac atebodd NE gan ddweud nad oedd adran wedi'i chynnwys ond ei fod yn fodlon ychwanegu adran. Cytunodd TJ y dylid cynnwys hyn, yn enwedig ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir.

Cododd TJ bwynt i NE yn ymwneud â phresenoldeb yn y pwyllgorau craffu yn y dyfodol ac awgrymodd y dylai aelodau eraill o’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn bresennol i roi persbectif gwahanol ar waith y bwrdd o fewn meysydd arbenigedd, nid y cadeirydd a’r is-gadeirydd yn unig. Dywedodd NE efallai y bydd newidiadau yn y maes hwn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gyda WBA a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar eu newydd wedd, gan fod y pwyllgor wedi galw am bresenoldeb y cadeirydd yn flaenorol ond, unwaith y bydd y gwaith o gyflawni prosiectau penodol a nodir yn y WPB newydd wedi dechrau, byddai gofyn i aelodau eraill fod yn bresennol ar gais aelodau etholedig.

**5. Grŵp Tlodi Cyngor Sir Penfro – adroddiad diweddaru**

Gwahoddwyd yr aelodau i ddarllen y papur a gynhwyswyd yn y pecyn agenda gan DM, a oedd yn amlinellu bod yr is-grŵp wedi cyfarfod ddwywaith ac wedi arwain at gwestiwn swyddogaethol allweddol, sef pwrpas y diweddariad hwn. Yn sgil y cyfarfodydd cychwynnol, daeth y grŵp i'r farn nad oedd yn mynd i gael ei gyfyngu i ddull strategol, ond hefyd i gymryd camau gweithredol. Un enghraifft o'r gwaith gweithredol yw adnabyddiaeth o Gronfa’r Eglwys yng Nghymru gan JW, lle mai un o’r camau gweithredu a nodir yn y defnydd o’r gronfa yw lliniaru tlodi yn yr ardaloedd lleol ond nid yw wedi’i ddefnyddio ers blynyddoedd lawer ac felly wedi cronni i ryw £400,000. Roedd JW yn trafod cael mynediad i'r arian gyda'r Pennaeth Adnoddau. Y defnyddiau a awgrymir yw codi ac ymestyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, nad yw wedi codi yn y deng mlynedd diwethaf ac nad yw'n cynnwys gwyliau academaidd. Mae'r gwaith strategol hyd yma wedi nodi pwysigrwydd profiad byw, ac wedi arwain at gasglu astudiaethau achos. Bu trafodaeth gyfoethog gyda brwdfrydedd da yn y grŵp.

Y cwestiwn a gyflwynwyd i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd a ddylai’r gweithgor barhau â ffocws penodol ond cyfyngedig ar “dlodi plant” neu agor y cwmpas ac edrych i fynd i’r afael â mater trosfwaol “tlodi” yn ei gyfanrwydd. Atgoffodd DM aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod y gweithgor wedi'i sefydlu i ddechrau yn dilyn yr hysbysiad o gynnig a godwyd gan y Cynghorydd David Lloyd y llynedd, a oedd yn edrych yn benodol ar fynd i'r afael â chyfraddau tlodi plant yn Sir Benfro. Problem bosibl wrth ehangu’r cwmpas

oedd gallu cyfyngedig gan aelodau ond barn DM oedd, trwy fynd i'r afael â thlodi cyffredinol, y byddai tlodi plant yn cael ei flaenoriaethu beth bynnag gan mai dyma'r grŵp mwyaf agored i niwed. Gofynnodd DM am arweiniad gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd SPJ yn cefnogi ehangu'r cwmpas gan ei fod yn rhesymegol a chynhwysol a gallai ei adael fel "tlodi plant" glustnodi'r gwaith yn artiffisial. Gofynnodd RB i CG a oedd safiad gan Lywodraeth Cymru a dywedodd CG fod rhesymeg glir iawn wedi'i chyflwyno a'i bod yn cadw'r gallu i fynd i'r afael â thlodi plant. Dywedodd DM fod gan Gomisiynydd Plant newydd Cymru ffocws ar dlodi ac y byddai ehangu cylch gorchwyl y gweithgor yn cyd-fynd â'r agenda. Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r newid ffocws ac i aelodaeth y gweithgor gael ei hehangu i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd JR i ddosbarthu gwahoddiadau cyfarfod.

**6. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall. Daeth y cyfarfod i ben am 10.45am.